Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yng Nghymru
Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil

Rhifyn 16: Hydref 2026

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR. Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw ymchwil neu ymholiadau proffesiynol, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu hyn â'r Bartneriaeth. Cewch ragor o wybodaeth am ymchwil ym mhob rhan o'r bartneriaeth ar wefan y Bartneriaeth, gan gynnwys eitemau/blogiau yn Y Llais. Os hoffech wybod mwy am weithgareddau ymchwil y Rhaglen TAR, cysylltwch â Wales-PGCE@open.ac.uk.

Yn y rhifyn hwn .....

Datblygu Ymarfer Myfyriol: Prosiect ymchwil cydweithredol rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid TAR.

Cynhadledd draws-CRN: Rhannu, Archwilio, Cydweithio – crynodeb o'r gynhadledd draws-CRN gyntaf.

Prosiect Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol Tegwch a Chynhwysiant: Manylion ar sut i gymryd rhan yn arolwg Prosiect Mynychu'r Ysgol.

Beth mae llawenydd yn ei olygu i blant bach - a pham mae'n bwysig i ni i gyd? Pam mae amgylcheddau llawen yn bwysig mewn mannau addysgol.

Gweithgareddau ymchwil Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored: Pecyn adnoddau sydd newydd ddod ar gael a chynhadledd Addysg Mathemateg sydd i'w chynnal.

Cynhadledd Ymchwil TAR 2026: Y 5ed Gynhadledd Ymchwil TAR flynyddol.

Datblygu Ymarfer Myfyriol *Prosiect ymchwil cydweithredol rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid TAR*

Dros y flwyddyn a hanner diwethaf, mae'r tîm TAR wedi bod yn ymateb i adborth gan ysgolion ar yr angen i ddarparu mwy o gymorth i'n hathrawon dan hyfforddiant allu ymgysylltu ag ymarfer myfyriol. Y canlyniad oedd prosiect ymchwil cydweithredol rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid TAR, a chreu dau fodel myfyrio i fyfyrwyr eu defnyddio. Nododd canfyddiadau'r prosiect fod athrawon dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi cymorth gan staff ysgol, yn enwedig Mentoriaid a Chydlynwyr Ysgol, ac y gall trafodaethau proffesiynol a chwestiynau adborth, gan aelodau profiadol o staff ysgol, helpu i ddatblygu ymarfer myfyriol y myfyrwyr drwy:

• Dod o hyd i ffyrdd newydd o feddwl am sefyllfa yn yr ystafell ddosbarth;

• Gweld pethau cadarnhaol, nid dim ond pethau negyddol, yn eu haddysgu;

• Meddu ar yr hyder i archwilio gwahanol ffyrdd o ddatblygu eu sgiliau a'u haddysgeg.

Mae'r deunyddiau ymarferol a grëwyd fel rhan o'r prosiect ar gael i fyfyrwyr TAR Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ar ffurf pecyn cymorth ar gyfer ymarfer myfyriol. Gofynnir i fyfyrwyr ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn mewn Gweithgareddau Ymarfer Dysgu penodol yn y ddau grŵp blwyddyn. Gall staff ysgol gadw llygad am y modelau myfyriol hyn wrth iddynt adolygu Gweithgareddau Ymarfer Dysgu ac ymarfer dysgu gyda'u myfyrwyr.

Gallwch ddarllen am y prosiect yn fanylach yn un o flogiau UCET a ysgrifennwyd gan Nerys Defis ac mewn papur ymchwil cyhoeddedig. Mae blog Nerys yn nodi'r effaith y gall eraill ei chael ar ddatblygiad ymarfer myfyriol myfyrwyr: 'whilst reflecting on practice is a personal experience, the voices of others can have a powerful impact.'

Cynhadledd draws-CRN

Rhannu, Archwilio, Cydweithio

Mae Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yn cyfrannu at y pedwar Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ar 13 Gorffennaf 2026, daeth y pedwar Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol ynghyd ar gyfer 'Rhannu, Archwilio, Cydweithio: Diwrnod Prosiect y Pedwar Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol'. Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i bob Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol rannu ei ymchwil a'i weithgareddau parhaus, ac i bawb ystyried cyfleoedd ar gyfer ymchwil cydweithredol ar draws y rhwydweithiau yn y dyfodol. Denodd y diwrnod gryn nifer o gynadleddwyr a dangosodd yr adborth a gafwyd fod awydd cryf i ymgymryd â mwy o weithgarwch ymchwil ar y cyd, parhau i gyfnewid gwybodaeth a chynnal deialog broffesiynol barhaus.

Prosiect Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol Tegwch a Chynhwysiant

Cymerwch ran yn arolwg Prosiect Mynychu'r Ysgol

Mae Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol Tegwch a Chynhwysiant yn cynnal prosiect mynychu'r ysgol gyda'r nod o ddeall newidiadau i gyfraddau presenoldeb mewn ysgolion ers pandemig Covid-19 yn well. Gwahoddir pob plentyn a pherson ifanc 7-16 oed yng Nghymru i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn drwy lenwi holiadur ar-lein, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref neu nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol ar hyn o bryd. Ceir mynediad at yr holiadur drwy wefan prosiect sy'n cynnwys adnoddau y gellir eu lawrlwytho gan gynnwys pecyn gwersi am hawliau plant. Bydd canfyddiadau'r prosiect yn darparu gwybodaeth am newidiadau i gyfraddau presenoldeb mewn ysgolion ers pandemig Covid-19, yr hyn a allai beri i rai plant beidio â bod eisiau mynd i'r ysgol, a sut y gellir cefnogi plant a phobl ifanc yn well i arfer eu hawl i addysg. Anogwch blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y prosiect a rhannwch wybodaeth amdano ymhlith eich rhwydweithiau.

Mae'r prosiect hefyd yn awyddus i gael barn plant 3-7 oed, a gall ysgolion, sefydliadau, rhieni/gofalwyr a hoffai gymryd rhan yn yr astudiaeth ymuno â sesiynau pecyn cymorth creadigol, gan rannu eu teimladau am yr ysgol drwy straeon, celf a chwarae. Os ydych chi'n oedolyn sy'n gweithio gyda phlant neu'n eu cefnogi, anfonwch neges e-bost i wales-pgce@open.ac.uk i gael gwybod mwy.

Beth mae llawenydd yn ei olygu i blant bach - a pham mae'n bwysig i ni i gyd?

Pam mae amgylcheddau llawen yn bwysig mewn mannau addysgol

Mae rhifyn Gorffennaf 2026 o *small***talk**, sef y cylchgrawn i aelodau Blynyddoedd Cynnar Cymru, yn cynnwys erthygl ar lawenydd yn ystod plentyndod cynnar gan Dr Carys Jennings, Tiwtor Cwricwlwm Cynradd TAR. Mae'r erthygl, sy'n seiliedig ar ymchwil ar gyfer Doethuriaeth mewn Addysg (EdD) a wnaed gan Carys, yn ystyried sut mae llawenydd yn hanfodol i lesiant, dysgu a datblygiad plant a, thrwy greadigrwydd, fel tynnu lluniau, peintio, ffotograffiaeth a thrafod, y gall plant gyfleu beth mae

hapusrwydd yn ei olygu iddyn nhw, gan ddatgelu gwybodaeth bersonol ac ystyrlon am eu bywydau. Un o ganfyddiadau canolog ymchwil Carys yw pwysigrwydd oedolion 'yn creu'r amodau ar gyfer llawenydd' yn fwriadol drwy neilltuo amser a chreu cyfleoedd i blant fynegi eu hunain: er y gall plant rannu eu profiadau llawen yn frwdfrydig, mae sgyrsiau ystyrlon a hwylusir gan oedolion yn helpu i ddatgelu arwyddocâd emosiynol y tu ôl i'w lluniau, eu ffotograffau a'u straeon. Fel y nodir yn yr erthygl: 'When practitioners create time and space for dialogue and creativity, they strengthen trust and nurture environments where joy becomes central to learning and development'. Mae amgylcheddau sy'n meithrin ac yn cynnal llawenydd yn ogystal â'i gydnabod yn gofyn i ymarferwyr fyfyrio a mireinio eu dulliau yn barhaus, ac mae oedolion yn chwarae rôl hanfodol wrth greu amodau ar gyfer llawenydd drwy wrando'n astud, ymarfer myfyriol a gweithredu ymatebol. Gan gadw hyn mewn cof, mae'r erthygl yn pwysleisio na ddylid ystyried bod llawenydd yn elfen ychwanegol o addysg, ond yn hytrach ei fod yn elfen hanfodol o addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn a phrofiadau dysgu cadarnhaol.

Jennings, C. (2026) What does joy mean to young children – and why does it matter to us all? *Small**talk***, 155, tudalennau 7-9, Ar gael yn: https://earlyyearswales.hflip.co/smalltalk_Gorffennaf2026_CYMRAEG#page/1

Gweithgareddau ymchwil
Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored

Rhesymu Lluosiadol Drwy Fesur: Pecyn Adnoddau a Chyflwyniad

Diben hyn yw eich atgoffa bod pecyn adnoddau 'Rhesymu Lluosiadol drwy Fesur' (wedi'i anelu'n bennaf at gam cynnydd 2), a ddatblygwyd gan y Tiwtor Cwricwlwm Rachel Wallis gyda chymorth dwy ysgol bartner ar gael yma. Bydd Rachel Wallis a Matt Owens, o Ysgol Gynradd Baden Powell, yn cyflwyno profiadau o ddefnyddio'r adnoddau hyn yng nghynhadledd Cyngres Addysg Mathemateg Prydain ym mis Hydref. Byddant hefyd yn cynnal sesiwn gyfoethogi a fydd yn cyflwyno'r adnoddau hyn a dulliau o'u defnyddio ar gyfer myfyrwyr TAR ac ysgolion partner y Brifysgol Agored yng Nghymru ddydd Iau 21 Ionawr am 4pm - 'cadwch y dyddiad' a chadwch lygad am ohebiaeth bellach am hyn a sut i gofrestru.

Cynhadledd Ymchwil TAR 2026

Y 5ed Gynhadledd Ymchwil TAR flynyddol

Ar 19 Mehefin 2026 cynhaliwyd y 5ed Gynhadledd Ymchwil TAR flynyddol. Eleni, y thema oedd 'Tegwch a Chynhwysiant'. Roedd y gynhadledd yn cynnwys prif gyflwyniad ysbrydoledig gan yr Athro Mel Ainscow CBE a ddefnyddiodd ei ymchwil o ysgolion ledled y byd i ystyried beth mae'n ei olygu i greu systemau addysgol mwy cynhwysol. Mae'r Gynhadledd flynyddol yn rhoi cyfle i athrawon TAR dan hyfforddiant ym Mlwyddyn 2 gyflwyno canfyddiadau o'u hymholiadau proffesiynol eu hunain, ac eleni dangosodd 10 myfyriwr eu hymchwil. Dangosodd y cyflwyniadau hyn y sgiliau ymchwil a'r profiad a ddatblygwyd gan fyfyrwyr Blwyddyn 2 wrth iddynt ymgymryd â'u hymholiadau, a thynnwyd sylw at amrywiaeth ddiddorol o ymchwil ar draws gwahanol feysydd pwnc. Ymhlith y meysydd testun roedd cynnwys dysgu yn yr awyr agored, darllen er pleser, strategaethau drilio ieithyddol ac effaith ymwybyddiaeth ofalgar ar barodrwydd plant i ddysgu.

Mae trafodion dwyieithog llawn y gynhadledd ar gael yma; ac mae oriel ar-lein o bosteri cryno athrawon dan hyfforddiant o'u hymholiadau proffesiynol ar raddfa fach ar gael yma.